OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 2610

## Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol a Chynefinoedd Naturiol (Echdynnu Mwynau drwy Dreillio Gwely'r Môr) (Cymru) 2007

## RHAN 2

CYFYNGIADAU AR DREILLIO

**Cyfyngiadau ar dreillio**

**4.** Mae i unrhyw berson wneud gwaith treillio yn dramgwydd, ac eithrio pan fo'r treillio —

(a) yn dod o fewn un o'r achosion a ddisgrifir yn rheoliad 5 (pan na fydd y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â'r treillio ond i'r graddau a bennir yn y rheoliad hwnnw mewn perthynas â'r achos penodol); neu

(b) yn cael ei wneud o dan ganiatâd a roddir o dan Ran 4 o'r Rheoliadau hyn ac yn unol ag ef.

**Cymhwyso'r Rheoliadau'n rhannol mewn achosion penodol**

**5.**—(1) Yr achosion a grybwyllir yn rheoliad 4(a) yw'r rhai a ddisgrifir ym mharagraffau (2), (6) a (7) o'r rheoliad hwn.

(2) Yr achos cyntaf yw pan fo Gweinidogion Cymru yn cael dyfarniad ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn dweud—

(a) bod y treillio'n brosiect neu ran o brosiect sy'n bodloni dibenion amddiffyn gwladol; a

(b) y byddai cymhwyso'r Rheoliadau hyn, ac eithrio i'r graddau a bennir ym mharagraffau (4), (5), (6) neu (7) o'r rheoliad hwn, yn ôl y digwydd, yn effeithio'n andwyol ar y dibenion hynny ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol.

(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru ddyfarnu a fyddai'r treillio'n brosiect cynefinoedd.

(4) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, a bod Gweinidogion Cymru'n dyfarnu o dan baragraff (3) y byddai'r prosiect yn brosiect cynefinoedd, dim ond darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn fydd yn gymwys—

(a) Rhannau 1 a 2;

(b) rheoliad 10;

(c) rheoliadau 13 ac 14;

(ch) rheoliadau 16 i 24 ac Atodlen 3;

(d) rheoliadau 25 i 30; ac

(dd) rheoliad 32.

(5) Pan fo paragraff (2) yn gymwys a bod Gweinidogion Cymru'n dyfarnu o dan baragraff (3) na fyddai'r prosiect yn brosiect cynefinoedd, dim ond darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn fydd yn gymwys—

(a) Rhannau 1 a 2;

(b) rheoliad 26; ac

(c) rheoliad 30.

(6) Yr ail achos yw pan fo Gweinidogion Cymru wedi dyfarnu o dan reoliad 6—

(a) nad yw'r treillio'n brosiect perthnasol; a

(b) nad yw'r treillio'n brosiect cynefinoedd;

ac, mewn achos o'r fath, dim ond darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn fydd yn gymwys—

(i) Rhannau 1 a 2,

(ii) rheoliad 26, a

(iii) rheoliad 30.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), y trydydd achos yw pan fo'r treillio'n parhau i gael ei wneud yn unol â chytundeb ysgrifenedig a wnaed gan y perchennog cyn cychwyn, ac mewn achos o'r fath dim ond darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn fydd yn gymwys—

(a) Rhannau 1 a 2;

(b) rheoliad 24 ac Atodlen 3;

(c) rheoliad 26;

(ch) rheoliad 29; a

(d) rheoliad 30.

(8) Pan fo cytundeb ysgrifenedig a wnaed gan y perchennog cyn cychwyn yn cael ei amrywio wrth gychwyn neu ar ôl cychwyn, dim ond pan fo Gweinidogion Cymru, o ystyried y meini prawf dethol hynny sy'n berthnasol, wedi dyfarnu nad yw treillio o dan y cytundeb fel y'i hamrywir felly yn brosiect perthnasol y bydd y treillio'n dod o dan y trydydd achos (a bydd Atodlen 2 yn effeithiol i bennu'r meini prawf dethol ar gyfer dibenion y Rheoliadau hyn).